Tud 1.

Cofnodion drafft o Gyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos iau Mawrth 6ed am 7.00 yr hwyr.

Yn Bresennol

JTW, Eirwyn Thomas, John Evans, Luise Vassey, Annwen Hughes, Kevin Titley, Robin Ward. Helen Johns. Gwynfor Owen

Ymddiheuriadau – Nia Jones

Cyflwyniad am CCTV camerau gan Richard Hollinsworth – R.J Electrics.

Bydda modd hefyd cysylltu gyda Heather Brown Clerc Bermo parthed hyn. Nid y w Elliw Williams PCO yn gallu bod yn bresennol.

Holodd RH beth oedd y Cyngor ei angen?

JTW – camerau er diogelwch ffordd a preswylwyr, ac eiddo.

RW – ar gyfer monitoro

RH – gweld y Pentref?

JTW – mae yna lecynnau sy'n anodd eu monitoro.

Bod angen man canolog ar gyfer y mechanyddiaeth , pwer a wi fi dibynadwy.

Gellir cael camerau symudol sef PTZ (pan tilt zoom 360 degrees )

JTW – camerau o'r gogledd a de o'r pentref

RW – beth yw materion cyfreithiol?

RH – perchnogion siopa, a busnesau – dim problem.

Angen cofrestru'r caniataad I osod CCTV.

Anfantais o gael camerau bod pobl yn gallu gofyn am weld yr hyn sydd wedi ei recordio.

Mwya yr hard drive mwya byd yw'r storfa.

RH – mae gan siop Spa yn Dyffryn eu camerau, One Stop hefyd a'r Garage.

Mae cost am gamera sylfaenol tua £180

RH – mae angen cerdded o amgylch y Pentref a gweld beth sydd yn bosib.

AH – bod angen creu is bwyllgor.

ETh – trefnu bore dydd sadwrn gyda RH yn yr wythnosau nesaf.

Mae modd ychwanegu camerau a hard drives I'r system.

Gellir cael yr hwb yn y Neuadd Bentref. Hyn fydda yn gweithio gan bod yr adeilad yn ngofal y Cyngor. Hefyd gellid cael camerau yma er diogelwch yr Ysgol.

Trefnu cyfarfod felly ym mis Ebrill

**Gair gan y Cadeirydd – yn croesawu pawb I'r cyfarfod.**

**Tud 2.**

**Datgan Buddiant** – dim I'w ddatgan ond Cynghorydd Annwen Hughes yn datgan diddordeb pryd mae Ceisiadau Cynllunio yn cael eu trafod

**Derbyn Cofnodion** y cyfarfod diwethaf drwy e bost – eu cadarnhau fel rhai cywir

Ceisiadau Cynllunio – dim byd o'r Newydd.

1. Capel Gwynfryn – mae'r perchennog I fod I gysylltu efo'r Clerc I drefnu gyda gwneud newidiadau I'r fynedfa ar y llwybr. Heb glywed ganddo eto.
   Mae Peter Madog Memorials I fod I gysylltu efo'r Clerc hefyd – I adael iddi wybod os yw'n gallu mynd ar garreg yn ol I'r fynwent o dan y scaffoldiau. Pryder ac angen I'r perchennog fod yn bresennol.
2. Mae yna hysbyseb ar bolyn ger Capel Salem – bod y perchennog lle cwn yn bwriadu mynd ymlaen gyda'r datblygiad a chwalu yr hen adeiladau– . Y bwriad yw I geisio rhoi ail gais cynllunio I mewn a hynny ar gyfer pods gwyliau. Nid yw'r Cyngor wedi cael unrhyw wybodaeth parthed hyn.

ADRODDIAD CYLLID

Ar ddechrau mis Mawrth mae £23287.36 yn y Banc

Mae hyn wedi talu

£10.00 I'r Neuadd Rhent

£40 I Delyth Williams – wefan

£276 Robinsons – hawl Tramwyuo

£470 Agor Bedd

£5.00 Banc Charges

£422.33 Zoom etc ad daliadau I'r Clerc. Cyfnod 6 mis

Derbyniadau £177.43 llwybrau

Pasiwyd bod arian ar o l ar gyfer prynu 1 bin halen. Archebu hwn ar gyfer lleoliad yng Nghwm Bychan . Lleoliad yn cael ei benu gan Cyngor Gwynedd, ond gellid awgrymu ger Garth Engian hwyrach. Gan bod £356.92 yn y gyllideb yn barod ar gyfer halen ffordd.

Cost bin fyddai £362.67

Hefyd rhoi cyfraniad – adran rhoddion I Eisteddfod Ardudwy ( er lles y Gymraeg). AH yn datgan diddordeb. Mae £400 ar ol yn adran cyllid. Felly £200 yr un iddynt.

A hefyd I CFFI Ardudwy (pan ddaw cais cyn diwedd Mawrth) I Glwb Ardudwy a nid I CFFI Meirionnytdd.

Bydd angen talu Un Llais Cymru erbyn 1af Ebrill £147

Cymru 1 – newid yn y prisiau 1 Ebrill

Archwiliad Mewnol – yr un trefniadau a llynedd. Penodi Cyngor Gwynedd I wneud hyn. Angen anfon llythur yn ol at Rhys Bleddyn I gadarnhau y trefniadau.

**Materion Priffyrdd**

Yn Dilyn cwynion parthed ffyrdd y Pentref – dyma ymateb gan Gyngor Gwynedd

Mewn perthynas a pwynt 1 i 4 ynglŷn a ceisiadau am biniau halen o'r newydd, hoffwn eich hysbysu nid yw'r Adran bellach yn ariannu hyn wrth fod nifer iawn o finiau halen allan ar ein rhwydwaith. Fodd bynnag, mae'r ffyrdd hyn ar ein cylchdeithiau graeanu ail flaenoriaeth sydd yn cael ei gweithredu yn ystod y dydd yn unig pan mae tywydd oer am gyfnodau hir ac adnoddau ar gael. Os yw Cyngor Cymuned yn mynnu bod angen gosod biniau halen, mae posib i ni drefnu archwiliad er mwyn darganfod lleoliadau i'r biniau, ond bydd cost am ei archebu cael ei ysgwyddo gan y Cyngor Cymuned. Ar hyn o bryd mae cost am bin o'r newydd gyda halen am y tro cyntaf yn £362.67 yr un. Unwaith mae ar y safle bydd Adran Priffyrdd yn ei ail lenwi pan fydd angen.

Nifer o pot holes eraill ar y ffordd ger Bryn Deiliog - ger rhif 1 a 2: Mae'r Arolygwr Priffyrdd am asesu'r safle a threfnu unrhyw waith sydd ei angen.

Nifer o ddeiliach ar hyd ochr y ffyrdd, rhain wrth gwrs wedi rhewi ac yn peru gofid, rhag i rywun lithro arnynt. Bydd yr Arolygwr yn asesu'r safle a trefnu i Glanhau Strydoedd fydd yno pan yn yr ardal i'w ysgubo.

Grids haearn ar y ffyrdd i fyny at Tyddyn Pandy wedi cau efo deiliach, a hefyd llawer o chwyn yn tyfu o'r palmentydd -

Bryn Deiliog, a hefyd palmant gyferbyn a'r Victoria. Byddwn yn trefnu cylchdaith lladd chwyn yn y Gwanwyn. Fodd bynnag, yn y cyfamser, byddwn trefnu i Weithlu Ardal Ni ymweld ar pentref i gario allan gwaith ar y palmentydd.

Mewn perthynas a'r dirfod i ochr y ffordd sydd yn y lluniau, mae'r safle wedi ei wneud yn ddiogel a chais wedi ei anfon i'r Gweithlu ymweld ar safle yn y pythefnos nesaf.

Nododd Cynghorydd Annwen Hughes bod bollard wedi ei osod ar y safle uchod.

**Materion Eraill yn Codi**

1. Y Fynwent –
   a) Dyddiad ar gyfer tacluso yn y fynwent. Rhoi ar agenda mis Ebrill, pan fydd y tywydd yn well

Nododd AH mae cyfrifoldeb y teuluoedd yw'r beddau. Anodd gneud unrhyw waith ar yr eiddew rhag iddo ddymchwel mwy o gerrig.

Nododd AH hefyd nad yw Tim Tacluso yn gallu gwneud Gwaith yn y fynwent.

   b) Sedd er cof – bod JTW wedi cael gair gyda'r perchennog. A bydd hyn yn cael ei wneud.
   c) Mainc oedd ger y Victoria – angen lleoli hon yn y fynwent – rhwng y ddwy fynwent oedd y dealltwrieth.
   d) Angen torri y fynwent cyn 15.3.25 – cynhebrwn y diweddar David Richards. Clerc I drefnu hyn.
   e) Tendro am waith – agor tendrau diwedd Mawrth.

2. Cae Chwarae –
    a) nododd y Clerc iddi gysylltu efo G.l.Jones Bethesda – dal heb wneud y gwaith.
    b) Cysylltodd y Clerc hefyd gyda Play Inspection Wales – yn gwneud yr archwiliad 30.3.25
    c) Nododd K.Titley bod angen arwyddion dim cwn yn y maes chwarae plant.
    d) KT – bod angen difa chwyn ar y llwybr o Bryn Deiliog at y Bont. Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd parthed hyn
3. Parcio – Coed Hafod y Bryn

Bu I JTW a GO yn ymweld a'r safle yma. Nodwyd bod andros o ramp yno I geir ddod allan o'r maes parcio. Hyn ddim yn hwylus I geir sydd yn isel ar y ddaear. Bod Rhydian Roberts Parc Cenedlaethol yn ymwybodol o hyn.

Bod waliau o amgylch Tai Bryn Hyfryd yn chwalu. Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw hyn gan bod y lon yn uwch na'r tir yma. Hyn wedi cael ei adrodd I'r Cyngor yn barod.

4. Lluna r gyfer Llais Ardudwy or deffibiwlator – angen trefnu rhyw gyda'r nos efo John Evans a JTW.
5. WelTag – pawb wedi derbyn adroddiad 1 WelTag, ar ddiwrnod y Cyngor, felly dim amser I drafod hyn. Wedi ei gynnwys ar wefan ac ar fb.

Angen holi ymhellach –

a) Ble mae'r holiadur?
b) A fydda modd lleoli'r Blwch Postio yn y Pentref? Siop Bapur o bosib?
c) A ydynt am hysbysu'r dyddiau agored yn y Cambrian News?
d) Gofyn a oes modd cael gweld y dogfennau sydd wedi nodi yn gyfrinachol yn yr appendix?

6. Bod Pwyllgor Liaison Lein y Cambrian diwedd Mawrth.

Hwn ar zoom y troy ma. Ond nid ydym wedi derbyn y linc hyd yma. Rhaid I'r Clerc holi am hyn eto. Mae holiaduron/ffurflen gwestiynnau angen eu llenwi. Y Clerc yn nodi yr un hen bethau o hyd.

A fyddai modd I rai o'r Cynghorwyr angen cwestiiiiiwn neu adborth er sylw y cyfarfod yma?

Nododd GO bod angen

1) Holi am y toriadau o bosib ,ac a fydd yna well gwasanaeth a mwy o drenau ar gyfer y gaeaf nesaf?
2) Beth ddigwyddodd I'r tren a oedd I fynd yn syth o Talwrn Bach I Birmingham yn ddiweddar? Bod Cyngh. Nia Jones a'I theulu wedi trefnu diwrnod allan, a bydd rhaid neqwwid yn Machynlleth ac aros am amser cyn cael cyswllt tren arall.
3) Dywedodd GO nad oedd cynrychiolydd o TFW yn y cyfarfod diwethaf.

ADRODDIADAU CYNGHORWYR

Cyngh. Gwynfor Owen

1. Nid problem yn Llanbedr yn unig, ond I'w weld yn gwyn mewn aml I Bentref – sef gorr yrru. Er bod cyfyngder 20 myw yn bodoli. Nododd ei fod I gael cyfarfod gyda Swyddogion I drafod hyn
2. Treth Cyngor I godi 8.66%.

Nododd bod Cynghorwyr wedi cael amser I feddwl am hyn ac I gyflwyno gwelliant, ond neb wedi gwneud hynny. Gweithdai wedi bod hefyd…Heb y codiad hyn bydda rhaid torri yn ol ar Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. -

Nododd ETh - parthed y gorr yrru – bod rhaid ystyried camerau I reoli hyn?

Adroddiad Cyngh. Annwen Hughes

1) Problem gorr yrru – yn y gorffennol wedi trefnu I gael Fan "Go Safe" I'r ardal I fonitoro gorr yrru.
2) Problem o gar lleol yn dal I barcio gyferbun a'r Gof Golofn, er bod arwyddion dwbwl melyn ar y safle.
   Sylwadau gan Gynghorwyr Eraill

   1. Luise Vassey – bod cyfarfod zoom Gwasanaeth Huchenfeld 17.3.25
   2. Kevin Titley – Bin liner y cae chwarae wedi cael ei dynnu eto – a oedd bwriad symud y bin Arth eto?

   Arwydd ger giat Never Cut angen sylw.

   Chwyn ar lwybr cae chwarae – wedi anfon llun.

   Carreg pentan yn rhydd ar fynedfa maes parcio yr hen safle dump.

   Tybed a ddylai'r Cyngor feddwl am newid face book I Blue Sky? Nifer o eitemau celwyddog ar fb ar hyn o bryd.

   3.John Evans – Postyn giat ger Pont Glanffrwd angen ei drwshio. Pasiwyd I ofyn I Arfon neu Elfyn Pugh I wneud hyn.

   4. Eirwyn Thomas – Bod angen anfon at Cyngor Gwynedd I'w hatgoffa bod angen ail neud y palmant gyr y gysgodfan Vic. (Angen gostwng)

   Mater dail coed – nododd y Clerc bod hyn wedi cael ei anfon eisioes I Gyngor Gwynedd

   Mainc – wedi mynd a un fainc I'w thrwshio – honno oedd ger Moreia.

   5. Cynghorau – Fforwm Ardudwy

   Nododd y Clerc bod angen agenda.

   Nododd AH ei hymddiheuriad.

   Petha I roi ar yr agenda

   1. Gorr yrru
   2. Grantiau Sut mae Cynghorau eraill yn cael arian. Pasiwyd I holi Elin Ardal Ni.
   3. Mater dyddiau agored Ffordd Osgoi . Adroddiad

6.Jane Taylor Williams – bod angen cael giat I roi ar llwybr at yr afon ger Glennydd. Pwy sydd berchen y tir yma. Holi Land Registry.